Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd
hyd at 2015

Bwyd mwy diogel i'r genedl

Diweddariad Mawrth 2011

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Rhagair

Mae'r strategaeth hon hyd at 2015, a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'n rhanddeiliaid, wedi cael ei diweddaru i gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth ddiweddaraf am risgiau i ddiogelwch bwyd ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn y cyfrifoldebau dros faeth yn y Deyrnas Unedig. Mae strategaeth yr Asiantaeth yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn.

Yn ystod 2010, cafodd y polisi maeth a'r polisi labelu yng Nghymru a Lloegr eu trosglwyddo o'r Asiantaeth i adrannau iechyd y gwledydd hyn, gyda'r gweithgareddau hyn yn cael eu cadw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfrifoldeb dros rywfaint o bolisi labelu bwyd nad yw'n gysylltiedig â diogelwch a rhywfaint o bolisi cyfansoddiad bwyd ei symud i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr. Mae'r Asiantaeth yn dal yn gyfrifol am y rhain yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Ar yr un pryd, mae'r ffaith bod yr Asiantaeth wedi ymgorffori'r Gwasanaeth Hylendid Cig ac wedi datblygu'n hadran weithrediadau newydd, wedi cryfhau'n cylch gorchwyl craidd, sy'n ymwneud â pholisi a gorfodaeth diogelwch bwyd.

Mae'r chwe chanlyniad a ddisgrifir ar y tudalennau canlynol yn tanlinellu sut y byddwn yn parhau i sicrhau y gallwch ymddiried a hyderu yn y bwyd rydych chi'n ei brynu a'i fwyta. Rydym ni wedi ychwanegu un egwyddor ychwanegol at ein hegwyddorion craidd – sef gorfodi'r gyfraith bwyd yn deg. Mae hyn yn dangos ein bod o ddifrif pan ddaw'n fater o gymryd camau ynglŷn â diogelwch bwyd a thwyll bwyd. A thrwy seilio'n gwaith ar dystiolaeth, gan weithredu'n annibynnol ac mewn modd agored a thryloyw, byddwn yn parhau i roi'r defnyddiwr yn gyntaf ym mhopeth a wnawn.

Jeff Rooker

Cadeirydd yr Asiantaeth

Tim Smith

Prif Weithredwr yr Asiantaeth

Rhybuddio'n gyson

Yn ystod 2010, aeth yr Asiantaeth i'r afael â mwy na 1,200 o ddigwyddiadau o halogi bwyd a'r amgylchedd ar lefel y Deyrnas Unedig. Roedd y rhain yn amrywio o ganfod 'morffolin', sef sylwedd nad yw'n cael ei ganiatáu, ar afalau i bresenoldeb listeria mewn selsig a fewnforiwyd. Cyhoeddodd yr Asiantaeth hefyd fwy na 70 o alwadau am alw a thynnu bwyd yn ôl (*food recalls and withdrawals*), gan atal bwydydd wedi'u halogi neu fwydydd â label camarweiniol rhag cael eu gwerthu. Rhybuddion alergedd oedd bron hanner yr achosion hyn – ynghylch bwydydd wedi'u cam-labelu a allai fod wedi achosi adweithiau alergaidd mewn rhai pobl.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: pwy ydym ni a beth yw ein gwaith

Ein hegwyddorion craidd:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored a thryloyw
- yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth
- gweithredu'n annibynnol
- gorfodi cyfraith bwyd yn deg

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cenedlaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich bwyd yn ddiogel i'w fwyta.

Ni sy'n ymwneud â diogelwch bwyd o'r adeg y bydd y cynhyrchion yn dod i'r wlad, neu'n ymadael â'r fferm, hyd at yr adeg y caiff y bwyd ei werthu i chi yn y siopau neu ei weini i chi pan fyddwch chi'n bwyta allan.

Os cawn wybod bod bwyd yn cynnwys cynhwysion anniogel, neu ei fod wedi'i labelu mewn modd sy'n ei gwneud yn anniogel i rai pobl ei fwyta, byddwn yn ei atal rhag cael ei werthu. Rydym ni'n gwneud hyn ar y cyd â sefydliadau gorfodi eraill, fel yr awdurdodau iechyd porthladd, adrannau safonau masnachu ac adrannau iechyd yr amgylchedd.

Mae ein menter 'Bwyd mwy diogel, busnes gwell' yn sicrhau bod hylendid bwyd da yn rhan ganolog o waith busnesau bwyd. Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (a'r System Gwybodaeth Hylendid Bwyd yn yr Alban) yn gadael i chi weld safonau hylendid sefydliadau arlwyo wrth i chi fwyta allan neu siopa am fwyd. Mae'r mentrau hyn yn cael eu cyflawni drwy ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol.

Mae staff gweithrediadau'r Asiantaeth yn gweithio mewn lladd-dai a safleoedd cig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i sicrhau bod y cig y byddwch yn ei brynu wedi'i gynhyrchu mewn modd diogel a hylan. Yng Ngogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon sy'n cyflawni'r rôl hon. Ni hefyd sy'n ymdrin â diogelwch bwyd anifeiliaid.

Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am labelu bwyd sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, gan gynnwys labelu alergenau. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon rydym ni hefyd yn gweithio ar labeli bwyd nad ydyn nhw'n gysylltiedig â diogelwch.

Yn yr Undeb Ewropeaidd, mae'n harbenigwyr cyfreithiol a'n swyddogion polisi yn negodi ar ran y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn bodloni buddiannau defnyddwyr y Deyrnas Unedig.

Ac mae'r gwyddonwyr ar ein staff ac yn ein pwyllgorau cynghori gwyddonol annibynnol yn gwarantu bod ein holl waith – o wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i asesu'r risgiau sy'n dod i'r amlwg – wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Cafodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei sefydlu yn 2000 fel adran annibynnol o'r Llywodraeth. Rydym ni'n cael ein llywodraethu gan Fwrdd a gallwn gyhoeddi unrhyw gyngor a gynigiwn i'r Gweinidogion.

Ers 2000, mae gwelliannau gwirioneddol wedi bod mewn diogelwch bwyd yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n harolygon rheolaidd ymhlith defnyddwyr, ein gweithdai a'n grwpiau ffocws yn awgrymu bod y gwelliannau hyn wedi cael eu hadlewyrchu gan gynnydd yn hyder pobl mewn bwyd.

Mae'r strategaeth hon wedi'i diweddaru i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn parhau.

Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd hyd at 2015

Ein hamcan strategol ni yw hyn: bwyd mwy diogel i'r DU

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk



Mae'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu neu ei werthu yn y DU yn ddiogel i'w fwyta

Y prif flaenoriaethau:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd drwy ddefnyddio dull wedi'i dargedu – gan fynd i'r afael â champylobacter mewn cyw iâr fel blaenoriaeth
- cynyddu gwaith 'gwylio'r gorwel' a gwella'r wybodaeth fforensig o gadwynau bwyd byd eang a'r ddealltwriaeth ohonynt er mwyn adnabod a lleihau effaith risgiau newydd posibl a risgiau sy'n ailymddangos – yn enwedig o ran halogi cemegol

Mae'r bwyd sy'n cael ei fewnforio yn ddiogel i'w fwyta

Y prif flaenoriaethau:

- gweithio'n rhyngwladol i leihau risgiau o fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu o wledydd y tu allan i'r UE
- sicrhau bod yna wiriadau yn y porthladdoedd a gwaith monitro yn yr awdurdodau lleol ar fewnforion drwy'r gadwyn fwyd gyfan, a bod y rhain yn cael eu seilio ar risg a'u targedu

Mae cynhyrchwyr bwyd ac arlwywyr yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau'r defnyddwyr mewn perthynas â bwyd

Y prif flaenoriaethau:

- cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am alergenau, gan gynnwys mewn sefydliadau arlwyo
- cydweithio â'r sefydliadau perthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn:
  - parhau i sicrhau gostyngiadau yn lefel y braster dirlawn, halen a chalorïau mewn cynhyrchion bwyd
  - rhoi hwb i ddatblygu, hyrwyddo a darparu dewisiadau iachach wrth i bobl siopa a bwyta allan
  - sicrhau bod dognau o faint sy'n briodol ar gyfer deiet iach ar gael ac yn cael eu hyrwyddo

Mae gan ddefnyddwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch beth i'w fwyta a ble

Y prif flaenoriaethau:

- gwella ymwybyddiaeth a defnydd y cyhoedd o negeseuon ynghylch bwyta'n iach ac arferion da mewn hylendid bwyd yn y cartref
- cynyddu'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr am safonau hylendid safleoedd bwyd pan fyddant yn dewis ble i fwyta allan neu siopa am fwyd
- cydweithio â'r sefydliadau perthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i wella ymwybyddiaeth a defnydd y cyhoedd o negeseuon ynghylch bwyta'n iach

Mae'r gwaith rheoleiddio yn effeithiol, yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, yn glir ynghylch cyfrifoldebau gweithredwyr busnesau bwyd, ac yn diogelu defnyddwyr a'u buddiannau rhag twyll a pheryglon eraill

Y prif flaenoriaethau:

- diogelu defnyddwyr drwy ei gwneud yn haws i fusnesau gydymffurfio â rheoliadau, a lleihau'r baich ar fusnesau
- sicrhau prosesau rheoleiddio mwy cymesur ac effeithiol, wedi'i seilio ar risg, drwy gryfhau'n cysylltiadau yn yr Undeb Ewropeaidd ac mewn fforymau rhyngwladol
- gweithio'n rhyngwladol i ddylunio model ar gyfer cyfundrefn reoleiddio a gorfodi newydd i sicrhau bod y rheolaethau cig yn effeithiol

Mae'r gwaith gorfodi'n effeithiol, yn gyson, wedi'i seilio ar risg ac yn gymesur ac mae'n canolbwyntio ar wella iechyd y cyhoedd

Y prif flaenoriaethau:

- sicrhau bod polisïau'n cael eu gorfodi a'u rhoi ar waith yn effeithiol o fewn y Deyrnas Unedig i ddiogelu defnyddwyr rhag peryglon sy'n gysylltiedig â bwyd ac arferion twyllodrus neu gamarweiniol, gan dargedu'r meysydd lle mae'r risg fwyaf
- cryfhau gwaith i gyflawni rheolaeth leol
- datblygu'n gwybodaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cynyddu nifer y busnesau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau

Diogelu'r defnyddiwr, rheoleiddio'r diwydiant bwyd, gorfodi'r safonau

Gweithio yn y Deyrnas Unedig

Rydym ni'n cydweithio ag adrannau eraill o'r Llywodraeth i sicrhau dull integredig o greu polisïau bwyd. Rydym ni'n adran sy'n gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan a chan fod pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig, a bod y polisi bwyd wedi'i ddatganoli, rydym ni'n cydweithio'n agos â'r llywodraethau ar draws y pedair gwlad. Mae'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi cyngor a gwybodaeth, yn ymwneud yn arbennig â'r rhannu hynny o'r Deyrnas Unedig. Diben hyn yw sicrhau bod diogelwch a safonau bwyd yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled y Deyrnas Unedig, a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau cenedlaethol a lleol.

Rydym ni'n cydweithio â rheoleiddwyr yn yr awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, i sicrhau bod cyfraith bwyd yn cael ei chymhwyso a'i gorfodi yn gyson.

Rydym ni'n darparu gwybodaeth a chanllawiau ar yr arferion gorau a'r gofynion cyfreithiol i helpu busnesau bwyd i ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi.

Rydym ni'n anelu at ddarparu gwybodaeth ddibynadwy, gyfoes am fwyd i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Rydym ni'n gweithio gyda defnyddwyr, er enghraifft drwy Fforymau Dinasyddion, a chyda sefydliadau y tu allan i'r Llywodraeth, a'r Trydydd Sector (gan gynnwys elusennau a grwpiau eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd).

Gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol

Ni sy'n cynrychioli Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â materion diogelwch bwyd a safonau bwyd yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym ni'n cydweithio'n agos â'r Comisiwn Ewropeaidd, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, Pwyllgorau Sefydlog, Senedd Ewrop ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

Rydym ni'n gweithio'n rhyngwladol, gan gynrychioli Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyrff rhyngwladol fel Cyd gomisiwn yr FAO/WHO sef Codex Alimentarius, Sefydliad Iechyd y Byd, Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, a Sefydliad Masnach y Byd.

Mae gennym ni gysylltiadau cryf hefyd ag awdurdodau bwyd ledled y byd – er enghraifft, Aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Seland Newydd.

Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth

Mae Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth yr Asiantaeth yn disgrifio'r blaenoriaethau o ran y dystiolaeth y bydd arnom ei hangen a'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau ac yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth yn effeithiol yn ein gwaith. Mae'n helpu i wireddu'r strategaeth hon hyd at 2015, yn brawf o'n cynnydd a bydd yn llywio datblygiadau yn ein gwaith ar ôl y cyfnod hwn. Mae'r Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth wedi'i chyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Datblygu cynaliadwy

Rydym ni am sicrhau bod ein diben ni, sef bwyd mwy diogel i'r DU, yn cael ei gyflawni, gan sicrhau hefyd yr effeithiau positif mwyaf posibl a'r effeithiau negyddol lleiaf posibl ar y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi.

Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw'r data cadarn ar beth yw bwyd cynaliadwy, ond mae hwn yn fater pwysig. Diogelwch bwyd yw maes ein harbenigedd ni ac felly byddwn yn cydweithio ag arbenigwyr cynaliadwyedd i wneud cynnydd ar yr agenda newydd hon ac adeiladu'r sail dystiolaeth angenrheidiol, ymatebion polisi cydlynol a chyngor i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau hefyd â'n prosesau 'gwylio'r gorwel' drwy gyfrwng y pwyllgorau cynghori gwyddonol a thrwy ymuno ar draws y Llywodraeth i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth, er enghraifft, o'r berthynas rhwng newid yn yr hinsawdd a diogelwch bwyd.

Rydym ni'n ymrwymo i leihau allyriadau carbon, i effeithlonrwydd ynni ac i ailgylchu. Rydym ni'n anelu at fynd ar ôl arferion amgylcheddol cadarn yn ein swyddfeydd er mwyn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

Yr adnoddau blynyddol angenrheidiol i wireddu'r chwe chanlyniad ar gyfer 2011/12 ymlaen



Mae'r Asiantaeth yn cael ei hariannu gan Senedd y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyfanswm yr adnoddau blynyddol angenrheidiol = £135m

36%
Mae'r rheoleiddio yn effeithiol, yn gymesur ac yn seiliedig ar risg: £49m

25%
Mae bwyd sy'n cael ei gynhyrchu neu ei werthu yn y DU yn ddiogel: £34m

18%
Mae'r gwaith gorfodi'n effeithiol, yn gyson ac yn gymesur: £24m

15%
Mae gan ddefnyddwyr yr wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus: £20m

4%
Mae bwyd sy'n cael ei fewnforio yn ddiogel: £5m

2%
Mae cynhyrchwyr bwyd ac arlwywyr yn blaenoriaethu buddiannau'r defnyddwyr: £3m

Adnoddau

Mae'r adnoddau y bydd eu hangen arnom i wireddu blaenoriaethau'r strategaeth hon, ein rhwymedigaethau statudol a'n hymrwymiadau fel adran o'r Llywodraeth, i'w gweld uchod yn ôl y canlyniadau strategol y maen nhw'n eu hategu.

Sicrhau gwerth

Wrth gyflwyno'r canlyniadau sydd ar y tudalennau blaenorol, rydym yn anelu at weithio'n gynaliadwy at y dyfodol, sy'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, a bargen deg i fusnesau. Rydym yn anelu at weithio'n fwy deheuig fel adran o'r Llywodraeth ac fel rheoleiddiwr bwyd. Byddwn yn sicrhau gwell gwerth am arian drwy gyfres o fesurau. Mae'r rhain yn cynnwys uno'r Asiantaeth a'r MHS, a'u gwasanaethau corfforaethol, i greu Grŵp Gweithrediadau newydd i'r Asiantaeth gyda gwaith yr MHS wrth ei graidd. Byddwn hefyd yn cyflunio trefniadaeth y sefydliad yn unol â'n strategaeth.

Mesurau perfformiad

Byddwn yn pennu mesurau perfformiad i fonitro'r cynnydd yn erbyn chwe chanlyniad allweddol y strategaeth. Byddwn hefyd yn cloriannu'r effaith y byddwn ni a'n partneriaid yn ei chael o ran gwella iechyd y cyhoedd, e.e. drwy fesur tueddiadau mewn salwch a gludir gan fwyd.

Byddwn yn adolygu'r strategaeth bob blwyddyn gan ei haddasu i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu rhag peryglon diogelwch bwyd.

Mae'r dadansoddiad a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r strategaeth hon a gwybodaeth am sut y byddwn yn cloriannu llwyddiant o'i gymharu â'r chwe chanlyniad ar gael ar ein gwefan yn food.gov.uk/strategy

Yr wybodaeth ddiweddaraf

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am fwyd, ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd:
food.gov.uk – Cliciwch ar 'Cymraeg'

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau o'r ddogfen hon neu unrhyw un o gyhoeddiadau eraill yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: 0845 606 0667
minicom: 0845 606 0678
ffacs: 020 8867 3225
e-bost: **foodstandards@ecgroup.co.uk**

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ebrill 2011
Dyluniwyd gan Celeritas UK Limited
© Hawlfraint y Goron
FSA/1618/0311